CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 22 Ionawr, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech B), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr D W Roberts, (Brynteg), Mr I Williams, (Benllech B).

146 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mrs S Edwards, (Benllech B), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg).

147 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

148 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ragfyr 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

149 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

150 UN LLAIS CYMRU - HYFFORDDIANT.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – rhaglen hyfforddiant Gogledd Cymru am chwe mis cyntaf 2018.

151 UN LLAIS CYMRU - YMGYNGHORI.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Lyn Cadwallader yn manylu yr ymgynghoriadau diweddar a gynhaliwyd drwy Gymru, yn berthnasol i ddyfodol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Mynychwyd cyfarfod Caernarfon gan Ms G M Davies a'r Clerc.

152 UN LLAIS CYMRU – LLYTHYR NADOLIG

Cyflwynwyd er gwybodaeth – braslun o ddigwyddiadau Un Llais Cymru dros y misoedd diwethaf gan y Cynghorydd Mike Cuddy mewn llythyr Nadolig.

153 FFORWM CYSWLLT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED. – COFNODION.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 21 Tachwedd yn Siambr y Cyngor, Llangefni.

154 UN LLAIS CYMRU – COFNODION.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod pwyllgor ardal Ynys Mon a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llangefni ar y 5 Hydref 2017.

TALIADAU A CHYFRIFON

155 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad Plac Coffa	£32-00
Neuadd Goffa Goronwy Owen	Rhent stafell	£215-00
British Telecommunications plc	Mabwysiadu ciosg	£1-00
Anglesey Fabrication	Gat Caer Berllan	£830-16
Photostatic	Llungopio	£12-60
J D Roberts	Archwilio Mewnol 16/17	£75-00

156 CYFRIFON

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Rhagfyr 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

157 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Rhagfyr 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

158 STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynwyd – dogfen Strategaeth Buddsoddi draft am 2018/2019 i'w chymeradwyo.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r ddogfen Strategaeth Fuddsoddi draft fel ag yr oedd.

159 AMCANGYFRIFON 2018/2019.

Cyflwynwyd – amcangyfrifon y Cyngor yn rhoi manylion o incwm a thaliadau arfaethedig am 2018/2019.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r amcangyfrifon drafft gydag un newid i'r gwariant, sef, cynyddu swm "Cynllun Gwella Benllech" o £1500 i £11,500 gan y bydd angen goleuadau newydd ynghyd a ffens uwch i'r safle chwaraeon bob tywydd.

160 CYNGOR SIR YNYS MON – ARCHEB 2018/2019.

Cyflwynwyd – adroddiad y Clerc ar anghenion cyllidol y Cyngor yn 2018/2019.

PENDERFYNWYD –

(1) codi archebiant o £51,660.

(2) mai £104,432 fydd cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2018/2019 dan Adran 50 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. (Bydd copi o'r Amcangyfrifon a Phraeseptau wedi ei newid yn cael ei cynnwys yn rhaglen Chwefror.)

161 PRAESEPTAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED 2018/19.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Gyngor Sir Ynys Mon yn amcangyfrif mai 1802.82 yw nifer y tai Band "D" o fewn dalgylch y Cyngor Cymuned am 2018/19.

162 RHESTR GRANTIAU A RHODDION 2018/2019.

Cyflwynwyd – atodlen yn dangos dyraniad arfaethedig arian grantiau am y flwyddyn 2018/2019.
PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r atodlen fel ac yr oedd.

163 SEDD WAG WARD BENLLECH "B"

Cyflwynwyd – cais gan Mr Dafydd Humphreys am y sedd wag ar Ward Benllech "B"o Gyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf. Ni dderbyniwyd unrhyw gais arall am y sedd wag.

PENDERFYNWYD – etholwyd Mr Humphreys yn unfrydol gan yr aelodau.

164 CLERC NEWYDD.

Hysbysodd y Clerc presennol yr aelodau na chafwyd dim ymateb i'r gwahanol hysbysebion am swydd Clerc newydd i'r Cyngor Cymuned. Roedd rhain yn cynnwys gwefannau y Cyngor Cymuned a Chyngor Sir Ynys Mon ynghyd a "Safle Swyddi". Yn ogystal rhoddwyd hysbysebion ar y tri hysbysfwrdd ym Menllech, Llanbedrgoch a Thraeth Coch.

Fodd bynnag roedd diddordeb wedi cael ei ddatgan gan fenyw o Frynteg a oedd yn ymddeol ddiwedd haf 2018 ac anfonwyd pecyn ymgeisio iddi, gofynwyd dychwel y ffurflen gais mewn pryd i gynnwys y mater yn rhaglen cyfarfod mis Chwefror. Hefyd cadarnhaodd y Clerc ei fodlonrwydd i barhau yn ei swydd hyd ddiwedd Medi ond ddim ymhellach.

<u>CYNLLUNIO</u>

165 CEISIADAU.

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C821	104 Lon Conwy, Benllech

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-30 yr hwyr.